

SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU (SYYC)



Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau
Prifysgol Bangor

Haf 2017

GRANT WEDI'I SICRHOU AT BECYN CYMORTH CASGLIADAU YSTADAU CYMRU

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru wedi sicrhau grant gan Gyfrif Cyflymu Effaith [ESRC Prifysgol Bangor](#) ar gyfer project i weithio tuag at greu pecyn cymorth ar-lein i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr archifau gael hyd i archifau ystadau, eu gweld a'u dehongli.

Mae'r casgliadau o gofnodion a gasglwyd gan ystadau tir dros y blyneddoddd yn ffurfio rhan sylweddol o ddaliadau archifol y genedl. Lluniwyd archifau ystadau gan deuluoedd oedd yn aml â grym dylanwad sylweddol dros eu cynefin a'u cymuned, ac maent yn adnoddau eithriadol o bwysig ar gyfer ymchwil i hanes, diwylliant a thirwedd Cymru ynghyd ag agweddau ar ryng-gysylltedd lleol, cenedlaethol a byd-eang mewn meysydd yn amrywio o wleidyddiaeth, crefydd a diwydiant, at bensaernïaeth, cerddoriaeth a ffermio.

Serch hynny, mae'r archifau hyn yn aml yn cwmpasu nifer o wahanol gyfnodau, ieithoedd, a lleoliadau daearyddol, ac yn amrywio mewn maint, natur a chyfansoddiad. Maent yn hynod o gymhleth a gallent fod yn anodd i nifer o ddefnyddwyr a grwpiau o ddefnyddwyr posibl eu dehongli. Nod y project yw canfod ffyrdd o oresgyn y rhwystrau o ran darganfod, gweld a defnyddio archifau, i alluogi i archifau ystadau chwarae rhan lawn ym mywyd diwylliannol a deallusol Cymru.

Bydd cynnwys a chynllun y pecyn cymorth ar-lein yn cael ei gynhyrchu drwy gyfres o weithdai cyfnewid gwybodaeth yng ngogledd, de a chanolbarth Cymru, a fydd yn dod â rhwydweithiau o archifwyr, academyddion, defnyddwyr a

defnyddwyr posibl archifau at ei gilydd i drafod materion yn ymwneud â gwella'r modd y mae gweld, darganfod a defnyddio archifau, drwy raglen o weithgareddau grŵp rhyngweithiol.

Arweinir y project gan [Mr. Gwilym Owen](#), Darlithydd yn y Gyfraith, ynghyd â [Dr. Julie Mathias](#), Darlithydd mewn Astudiaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth, a [Dr. Shaun Evans](#), Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Mae'n cael ei gefnogi gan [Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru](#) a [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#), archifau sirol a chymdeithasau hanes lleol. Caiff y gweithdai eu cynnal gan [Archifau Morgannwg](#), [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#) ac [Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor](#).

Rhagwelir y bydd y pecyn cymorth ar gael yn gyhoeddus fel elfen bwysig o'r adnoddau ar-lein cysylltiedig â'r project Cronfa Dreftadaeth y Loteri y mae Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth yn ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a phartneriaid eraill.

Bwriad Cyfrif Cyflymu Effaith ESRC Prifysgol Bangor yw cefnogi academyddion ym Mangor i ddangos y cyfraniadau gwirioneddol a wna eu hymchwil i gymdeithas a'r economi, yn cynnwys tuag at feithrin cysylltiadau a rhwydweithiau gyda defnyddwyr ymchwil posibl i hwyluso cyd-gynhyrchu gwybodaeth.



Plas Dwning, Chwitfordd, Sir y Fflint, o A Tour of Wales (1783) gan Thomas Pennant – BUASC X/AA PEN

t.1	tt. 2 - 5	tt.6 - 14	tt.14 - 15	t.15	tt.16
Llwyddiant Grant	Newyddion	Digwyddiadau	Digwyddiadau i ddod	Cefnogi ein Cenhadaeth	Symposiwn mapiau Cymru



NEWYDDION

CYDNABYDDIAETH O BWYS I ARCHIFAU'R BRIFYSGOL

Mae'n bleser gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru gyhoeddi bod [Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor](#) wedi derbyn [Achrediad y Gwasanaeth Archifau](#) (*Archive Service Accreditation*).

Statws achrededig yw prif fesur arfer da a safonau cytunedig ar gyfer gwasanaethau archifau ar draws y Deyrnas Unedig, gan asesu gallu sefydliad i ddatblygu a gofalu am ei gasgliadau, a rhoi mynediad iddynt.

Mae'r archifau ym Mangor yn gyfrifol am reoli a gwarchod rhai o gasgliadau ystadau mwyaf arwyddocaol Cymru, sy'n darparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer y projectau a ddatblygir gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.

Cyflwynwyd yr Achrediad yn swyddogol yn ystod seremoni ym mis

Rhagfyr, ac yn bresennol yr oedd Dr Sarah Horton o Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru, yr Is-ganghellor ac Aelod Bwrdd Ymgynghorol Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, Yr Athro John G. Hughes a grŵp o ddefnyddwyr rheolaidd yr archifau. Longyfarchiadau mawr i Elen Wyn Simpson a'i thîm ar y llwyddiant gwych hwn.



STATWS CANOLFAN YMCHWIL SWYDDOGOL

Cydnabuwyd cyfraniad Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru (SYYC) i'r brifysgol trwy ddyfarnu 'Statws Canolfan Ymchwil Swyddogol' iddo. Mae'r statws hwn yn cydnabod cyfansoddiad amlddisgyblaethol eang y Sefydliad, sy'n cynnwys cydweithwyr o feysydd mor amrywiol â'r Gyfraith a Choedwigaeth, Cerddoriaeth, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg a Hanes. Ond yn bwysicaf oll, mae'n cydnabod y ffaith bod SYYC mewn sefyllfa i wneud cyfraniadau tymor hir arwyddocaol tuag at Gynllun Strategol y brifysgol, mewn meysydd allweddol sy'n cynnwys ymchwil, addysg, cyfraniad y cyhoedd a chyfraniad at gymdeithas.






PENODI CYMRODYR YMCHWIL ER ANRHYDEDD

Mae'n bleser gan SYC gyhoeddi penodiad pedwar Cymrawd Ymchwil er Anrhydedd i gynorthwyo a chynghori ar ddatblygiad deallusol y ganolfan ymchwil.

Mae cysylltiad yr Athro A.D. Carr â Phrifysgol Bangor yn mynd yn ôl yn bell. Rhwng 1979 a 2002 bu'n Gyfarwyddwr ar y Diploma Mewn Gweinyddu Archifau, cymhwyster a gafodd lawer o glod, cyn ei benodi'n Athro Hanes Cymru'r Oesoedd Canol yn 1999. Cafwyd canmoliaeth eang i'w ymchwil i hanes cymdeithasol ac economaidd gogledd Cymru yn ystod cyfnod yr oesoedd canol, gan gynnwys ei ddadansoddiad arloesol o ddatblygiad ystadau (Mostyn a Phenrhyn yn benodol) ar sail astudiaeth fanwl o weithredoedd cyfreithiol diwedd yr oesoedd canol. Pan gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1982 cafodd ei waith Medieval Anglesey ei gydnabod yn batrwm ar gyfer hanes rhanbarthol. Caiff ei waith oes ar ddiwylliant ac ystadau'r bonedd ei gasglu a'i gyhoeddi cyn hir o dan y teitl *The Gentry of North Wales in the Late-Middle Ages*.

Mae'r Athro David W. Howell wedi mwynhau gyrfa nodedig fel un o ysgolheigion mwyaf blaenllaw Cymru ym maes hanes gwledig ac amaethyddol. Yn enedigol o Sir

Benfro, treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa ym Mhrifysgol Abertawe. Mae wedi cyhoeddi nifer o weithiau o bwys, gan gynnwys *Land and People in nineteenth-century Wales* (1978), *Patriarchs and Parasites: the landed gentry of south-west Wales in the eighteenth century* (1986) a *The Rural Poor in Eighteenth-Century Wales* (2000).



Yn raddedig o Brifysgol Bangor cydnabyddir John Glyn Parry gan lawer yn un o'r archifwyr mwyaf blaenllaw yng Nghymru. O 1976 tan ei ymddeoliad yn 2012 chwaraeodd ran flaenllaw mewn datblygiadau a phrojectau ym maes archifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chwaraeodd ran allweddol bwysig hefyd mewn sefydlu Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Mae'n un o brif awdurdodau ar gofnodion y llysoedd Cymreig. Mae ei gyfrol A

Guide to the Records of Great Sessions in Wales (1995) wedi profi'n adnodd anhepgor ar gyfer gwella dealltwriaeth o'r casgliad pwysig hwn a'r prosesau deddfwriaethol a fu'n sail i'w greu.

Mae'r Athro Prys Morgan yn hanesydd o fri sydd wedi chwarae rhan flaenllaw ym mywyd cyhoeddus Cymru yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf. Mae wedi cyhoeddi llawer iawn ar hanes diwyllianol, gan gynnwys ei ymdriniaeth arloesol â Chymru'r ddeunawfed ganrif yn *The Eighteenth Century Renaissance* (1981). Am ddegawd bu'n olygydd Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, cymdeithas y mae'n ei gwasanaethu yn awr fel Llywydd.

Mae penodi'r Cymrodyr ymchwil er anrhydedd yn rhoi i'r sefydliad gyfoeth o arbenigedd ym maes hanes ac archifau Cymru, fydd o werth sylweddol wrth i ni droi ein golygon tuag at greu swyddogaeth unigryw i'r sefydliad ym mywyd deallusol Cymru dros y degawdau i ddod.



ENCOUNTER: EUROPEAN NETWORK FOR COUNTRY HOUSE AND ESTATE RESEARCH

Mae SYC wedi dod yn aelod o Rwydwaith [ENCOUNTER](#). Sefydlwyd y rhwydwaith ym mis Hydref 2015 yn Amgueddfa Plasty Gammel Estrup yn Nenmarc gan grŵp o ymchwilwyr, curadwyr a gweithwyr proffesiynol yn y sector treftadaeth yn Ewrop. Amcan y rhwydwaith yw creu partneriaethau Ewropeaidd rhwng ysgolheigion a sefydliadau

diwyllianol sy'n rhannu diddordeb proffesiynol mewn dehongli ac ymchwilio i hanes plastai ac ystadau gwledig. Ei nod yw archwilio a thynnu sylw at amrywiadau a thebygrwydd rhwng hanes cestyll a maenorau mewn gwahanol ranbarthau o Ewrop o 1500 hyd heddiw ac mae'n cynnig fforwm i drafod sut mae ystadau a thirweddau ystadau'n cael eu cadw a'u dehongli fel treftadaeth ddiwyllianol heddiw. Mae'r rhwydwaith yn gobeithio croesi ffiniau traddodiadol rhwng hanes,

archaeoleg, hanes celf, pensaernïaeth a rheoli treftadaeth i greu partneriaethau rhyngwladol rhwng ymchwilwyr a gweithwyr treftadaeth proffesiynol mewn prifysgolion ac amgueddfeydd.





NEWYDDION

CYNLLUN ERASMUS+ YN AGOR LLWYBRAU I GYFNEWID GWYBODAETH YN RHYNGWLADOL

Treuliodd Dr Lowri Ann Rees wythnos ym [Mhrifysgol Maynooth](#) ddiwedd Chwefror fel rhan o leoliad teithio ar gyfer dysgu staff dan y cynllun Erasmus+. Rhannodd ei hamser rhwng y [Ganolfan Astudio Tai ac Ystadau Hanesyddol yn Iwerddon](#) a'r Adran Hanes. Trwy'r cynllun cafodd Dr Rees gyfle i arsylwi a chyfrannu at ddysgu israddedigion ac ôl-raddedigion. Arweiniodd seminar ar y cwrs MA Hanes Iwerddon lle bu'r myfyrwyr yn edrych yn fanwl ar Derfysgoedd Rebecca yn ne-orllewin Cymru a'u heffaith ar fuddiannau'r tîrfeddianwyr. Bu'r myfyrwyr yn cymharu ac yn cyferbynnu profiad Cymru ac Iwerddon mewn modd

treiddgar yn ystod sesiwn cyfnewid syniadau fywiog a difyr. Cafodd Dr Rees gyfle hefyd i gyflwyno hanes planhigfeydd teulu'r Penrhyn i fyfyrwyr oedd wedi ymrestru ar fodiwl israddedig ail flwyddyn ar gaethwasiaeth a gwrth-gaethwasiaeth. Aeth y myfyrwyr ati'n feddylgar i ystyried safbwyntiau a syniadau heriol wrth iddynt graffu ar hanes Richard Pennant fel perchennog caethweision. Yn ystod yr wythnos, cafodd Dr Rees gyfle hefyd i arsylwi ar ddarlithoedd, a chymryd rhan mewn seminarau a gweithdai. Wrth edrych yn ôl ar y profiad, dywedodd:

“Rwyf wedi dysgu cymaint oddi wrth yr arferion da a welais tra oeddwn ym Maynooth. Mae hyn wedi fy annog i ddatblygu dulliau dysgu newydd ar ôl dychwelyd i Fangor.

Roedd yn bleser mawr trafod fy ngwaith dysgu gyda'i bwyslais ar ymchwil gyda myfyrwyr mor frwdfrydig ac annwyl. ”



CASGLIAD CATALOGAU ARWERTHIANT

Ym mis Ionawr roedd Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor yn falch iawn o allu ehangu ei gasgliad o Gatalogau Arwerthiant Ystadau. Bellach mae'r casgliad hwn yn cynnwys dros 1,000 o gatalogau'n ymwneud â gwerthu tiroedd, eiddo a nwyddau tŷ yng Nghymru rhwng 1777 a 1984.

Roedd llawer o'r arwerthiannau cynharach wedi digwydd am nad oedd etifedd neu oherwydd bod y perchennog yn awyddus i werthu tir ar y cyrion er mwyn cydgyssylltu'r ystâd. Ond mae'r rhan fwyaf o'r catalogau ym Mangor yn dyddio o'r 1870au hyd ran gyntaf yr 20fed ganrif, cyfnod lle gwelwyd newid enfawr mewn daliadaeth tir o'r


ystadau mawr oedd yn ymestyn dros ddarnau helaeth o dir i berchen-ddeiliadaeth a ffermio rhydd-ddeiliadol. Mae llawer o'r Catalogau Arwerthiant yn cynnwys nodiadau'r arwerthiant (gan gynnwys manylion prynwyr) a hefyd fapiau a chynlluniau manwl o'r lotiau unigol, ac felly maent yn adnodd rhagorol ar gyfer dadansoddi newidiadau mewn perchnogaeth tir yng Nghymru.

Mae'r tri chatalog a ychwanegwyd at y casgliad ym mis Ionawr yn ymwneud â gwerthu tir oedd yn eiddo i Ystadau Broom Hall, Bodegroes, Glynllifon a Bodfean (i gyd yn Sir Gaernarfon) yn ystod y 1930au. Rydym yn ddiolchgar i Mr Michael Tree, Cadeirydd HHA Cymru, am roi'r cofnodion i'w cadw yn yr archifau.

I ddysgu mwy am werthu a chwalu ystadau yn niwedd y 19 ganrif, gweler:

John Davies, [‘The end of the great estates and the rise of freehold farming in Wales’, *Welsh History Review* 7, 2 \(Rhagfyr 1974\), tt. 186-212](#)

I chwilio'r casgliad Catalogau Arwerthiant (CA) ewch i'r [catalog ar-lein](#)





AELODAETH GYSWLLT

Dod yn Aelod Cyswllt o Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru

Rydym yn cydnabod bod nifer o unigolion a sefydliadau y tu hwnt i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn rhannu diddordeb mewn datblygu ein nodau a'n dyheadau deallusol. Mae gweithio mewn partneriaeth â'r cydweithwyr a'r budd-ddeiliaid hyn

yn hanfodol wrth i ni ddatblygu. O'r herwydd, rydym yn cynnig statws aelod cyswllt i unigolion a sefydliadau mewnol ac allanol sy'n cefnogi ac yn cyfrannu tuag at ein hamcanion.

Cynigir aelodaeth gyswllt fel ffordd o wella ein cyrhaeddiad academiaidd a'n gallu cydweithredol, o fewn Prifysgol Bangor ac, yn bwysig ddigon, wrth ymgysylltu â rhwydwaith o bartneriaid allanol mewn sefydliadau ymchwil eraill ac yn y sectorau canlynol: treftadaeth

ddiwylliannol, archifau, tai hanesyddol a materion gwledig. Bydd ein haelodau cyswllt yn chwarae rhan bwysig yn helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad y Sefydliad yn gwreiddio ledled Cymru; ac yn cynorthwyo i ddangos perthnasedd pellgyrhaeddol ein gwaith, gan gynnwys ei berthnasedd yn rhyngwladol.


I gael mwy o wybodaeth am sut i wneud cais, ewch i'n [gwefan](#)

MAE SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU YN CROESAWU SYMUDIADAU I DDIOGELU ENWAU LLEOEDD HANESYDDOL CYMRU

Bu i Adran 34 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 sefydlu darpariaethau ar gyfer casglu a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mewn ymateb i hyn, mae [Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#) wedi nodi ei fwriad i arwain ar greu mynegai [enwau lleoedd](#), a fydd yn defnyddio deunyddiau gwreiddiol cyn yr ugeinfed ganrif i nodi'r enwau sydd gan, neu a roddir i leoliadau a safleoedd ar draws Cymru. Bydd y mynegai'n cynnwys gwahanol ffurfiau a sillafiadau o enwau lleoedd dros amser.

Yn ogystal ag adeiladu ar waith arloesol [Archif Enwau Lleoedd Melville Richards](#), a ddelir gan Brifysgol Bangor, bydd y fenter hefyd yn dibynnu'n helaeth ar gronfa eang o ddata enwau lleoedd a gofnodwyd mewn archifau ystadau, yn cynnwys arolygon, mapiau, gweithredoedd a dogfennau rhent.

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru wedi nodi ei fwriad i gydweithio'n agos â Swyddog Enwau Lleoedd newydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a grwpiau megis [Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru](#), i ddatblygu'r adnodd, a fydd yn chwarae rhan sylweddol wrth ddiogelu elfen bwysig o dreftadaeth leol ar draws Cymru.



Llys Ystangbwl, Sir Benfro, dyfrlliw gan William Thomas c.1785
- © Miles Wynn Cato Gallery



DIGWYDDIADAU

36ain COLOCWIWM CELTAIDD HARVARD



**7-9 HYDREF 2016, PRIFYSGOL HARVARD,
CAMBRIDGE MA**

Roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru (SYYC) yn falch iawn o chwarae rhan bwysig yng [Ngholocwium Celtaidd enwog Harvard](#), a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Harvard, Cambridge, MA fis Hydref diwethaf. Roedd y Colocwium yn rhoi cyfle unigryw i SYYC amlinellu ei ddull gweithredu deallusol ar lwyfan rhyngwladol bywiog.

Yn ei ddarlith John V. Kelleher, aeth yr Athro Jerry Hunter (Athro'r Gymraeg a Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg a Chysylltiadau Cymunedol ym Mhrifysgol Bangor) ati i dynnu sylw at y wybodaeth hanesyddol bwysig sydd i'w chael mewn ffynonellau cyfrwng Cymraeg, ffynonellau nad oes digon o ddefnydd arnynt, mewn cyflwyniad hynod o ddifyr o'r enw 'The Red Sword, the Sickle and the Author's Revenge: Welsh Literature and

Conflict in the Seventeenth Century'. Roedd yn cynnwys dadansoddiad o farddoniaeth y brenhinwr Rowland Vaughan (c. 1590-1667) gan gynnwys y farddoniaeth a gyfansoddodd yn moli ei blasty a'i ystâd yng Nghaer-gai, Llanuwchllyn, Sir Feirionnydd.

Rhoddodd Dr Shaun Evans, (Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru) gyflwyniad gogleisiol ar thema 'Metamorphosed into Englishmen?' Welsh ancestral patriotism and the gentry of Sixteenth and Seventeenth Century Wales', a heriodd y naratif cyffredin fod y bonedd Cymreig wedi ymseisnigo fwyfwy dros y cyfnod hwn, gan ddadlau yn hytrach bod eu hymdeimlad o hunaniaeth Gymreig wedi parhau i fod yn annatod gysylltiedig â'r ffordd yr oeddent yn mynegi eu pŵer, eu statws a'u hanrhydedd.

Yn olaf, rhoddodd yr Athro Andrew Edwards (Deon Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau) gyflwyniad diddorol ar hanes casgliad yr Oriel Genedlaethol yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan gafodd ei drosglwyddo i Brifysgol Bangor a Chastell Penrhyn gerllaw i'w gadw'n ddiogel. Cafodd y tri phapur dderbyniad

brwd, a dechreuwyd trafodaethau gydag aelodau eraill o'r gymuned academiaidd ynghylch ffurfio cydweithrediadau rhyngwladol, gan gynnwys paratoi ar gyfer 16eg Gyngres Rhyngwladol Astudiaethau Celtaidd a gynhelir ym Mangor yn 2018.

Ynghyd â'r colocwium croesawodd yr Athro Edwards a'r Athro Hunter oddeutu 30 o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor i ddigwyddiad arbennig yn yr Harvard Faculty Club. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu'r Brifysgol, Sheila O'Neal, ac roedd yn cynnig cyfle pellach i hyrwyddo datblygiadau cyffrous yn y brifysgol, gan gynnwys sefydlu SYYC.

Trwy gydol yr ymweliad roedd y brifysgol yn hynod falch o gael cwmni a chefnogaeth dau aelod nodedig o Fwrdd Ymgynghorol SYYC - yr Athro Robin Grove-White a Mr George Meyrick o Fodorgan, yn ogystal â'r Athro Peredur Lynch (Athro Cymraeg ym Mangor) - a chwaraeodd ran bwysig mewn creu cysylltiadau fydd o fudd i'r brifysgol am amser hir i ddod.



Dr Shaun Evans

Institute for the Study of Welsh
Estates (ISWE)

Bangor University

shaun.evans@bangor.ac.uk
<http://iswe.bangor.ac.uk>

36th Annual Harvard Celtic
Colloquium

7-9 October 2016





DARLITH PENRHYN YN LLWYDDIANT YSGUBOL

“The Pennants of Penrhyn in Jamaica: Power, Profit and People”

2 TACHWEDD 2016

Roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru (SYYC) yn falch iawn o gyd-gynnal darlith [Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor](#) eleni a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2016.

Cynhelir y ddarlith gyhoeddus flynyddol i arddangos potensial ymchwil y [casgliadau archifol cyfoethog](#) a gedwir gan y Brifysgol. Y siaradwr gwadd eleni oedd Dr. Marian Gwyn, a gwblhaodd ei PhD ym Mangor yn 2014 ar y pwnc ‘The Heritage Industry and the Slave Trade’, yn canolbwyntio ar sut y gellir cyflwyno’r fasnach gaethwasiaeth ar draws yr Iwerydd mewn safleoedd treftadaeth yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y tai hanesyddol oedd â chysylltiadau â’r planhigfeydd yng nghyfansoddi America. Roedd Darlithfa Eric Sunderland dan ei sang i glywed cyflwyniad pwerus gan Dr. Gwyn a roddodd ddisgrifiad clir o sut roedd teulu Penrhyn yn rheoli eu planhigfeydd siwgr yn Jamaica, gan


ddangos eu cysylltiad â materion yn ymwneud â phŵer, gwleidyddiaeth, elw a phobl.

Mae archif Penrhyn, a oedd yn sail i ymchwil Dr. Gwyn, yn un o’r casgliadau ystadau mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru ac mae’n cynnig amrywiaeth o wybodaeth am hanes gogledd orllewin Cymru, a thu hwnt, o’r canol oesoedd hyd at yr ugeinfed ganrif.

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ac Archifau'r Brifysgol wedi ymrwmo i gydweithio i ddatglo potensial ymchwil y casgliad, sydd ar fin cael ei wneud yn gwbl chwiliadwy am y tro cyntaf diolch i’r project catalogio [‘Sugar and Slate’](#) y mae’r archifydd Sarah Vaughan wedi bod yn gweithio arno dros y misoedd diwethaf. Mae’r fenter hon wedi datgelu tystiolaeth ‘newydd’ bwysig sydd â’r potensial i gynnig safbwyntiau ffres ar nifer o wahanol themâu a materion pwysig.

Mae’r adnodd ymchwil newydd hwn yn dod ar gael ar adeg pan mae gwahanol agweddau ar dreftadaeth ystâd y Penrhyn yn cael eu gosod o dan y chwyddwydr. Mae’r ymgyrch i sicrhau Statws Treftadaeth y Byd [UNESCO](#) i ddiwydiant [llechi Gwynedd](#) yn dod â phartneriaid at ei gilydd sy’n

rhannu diddordeb mewn cydnabod pwysigrwydd hanesyddol mentrau chwarelyddol teulu Penrhyn, a’u heffeithiau dwfn ar y cymunedau, yr economi, y dirwedd, y seilwaith, yr amgylchedd adeiledig a gwleidyddiaeth y rhanbarth. Ar yr un pryd mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn buddsoddi mewn project ‘trawsnewid’ pwysig i chwyldroi sut caiff [Castell y Penrhyn](#) a’i hanes anesmwyth ar adegau ei gyflwyno i ymwelwyr. Bydd yr ymchwil a’r adnoddau archifol a gynigir gan Brifysgol Bangor yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad y ddwy fenter.



Cynllun o Ystad Dinbych, Jamaica, eiddo John Pennant, gan Thomas Blinshall, 1767-68 – BUASC Penrhyn Add. 2786



DIGWYDDIADAU

CYFLEOEDD YMCHWIL YN YMAGOR I ISRADEDIGION HANES

Ar 29 Mawrth cynhaliodd SYC weithdy arbennig i israddedigion yn eu hail flwyddyn yn yr [Ysgol Hanes ac Archaeoleg](#). Pwrpas y digwyddiad oedd tynnu sylw at y cyfleoedd ymchwil oedd yn gysylltiedig â'r Sefydliad, rhag ofn y bydd myfyrwyr am fanteisio arnynt wrth wneud eu traethodau hir. Yn dilyn cyflwyniad byr gan Gyfarwyddwr y Sefydliad ar yr amrywiaeth anhygoel o bynciau ymchwil y gellir ymchwilio iddynt trwy gyfrwng archifau lleol a chasgliadau treftadaeth ddiwylliannol, cafodd y myfyrwyr y pleser o glywed tair sgwrs llawn gwybodaeth gan gynrychiolwyr rhai o brif bartneriaid SYC.

Cyflwynodd Elen Wyn Simpson (Archifydd y Brifysgol) ganllawiau hynod o ddefnyddiol ar sut i adnabod a defnyddio casgliadau ystadau yn Archifau'r Brifysgol, gan gynnwys eglurhad ar y gwahanol gymhorthion chwilio ar-lein. Rhoddodd Lynn C. Francis o [Archifau Gwynedd](#) ddisgrifiad manwl o'r casgliadau ystadau sydd i'w cael yn Archifdai Caernarfon a Meirionnydd, gan dynnu sylw at y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys o fewn gwahanol fathau o gofnodion ac a allai fod yn sylfaen tystiolaeth ar gyfer ymchwil arloesol. Yn olaf bu Nerys Jones o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn tynnu sylw at gyfleoedd i fyfyrwyr fynd ar ôl themâu ymchwil sy'n berthnasol i'r Project Trawsnewid cyffrous yng [Nghastell y Penrhyn](#), sydd â'r bwriad o adfywio dulliau dehongli treftadaeth a phrofiad ymwelwyr ar y safle.

Diolchodd Dr Euryn Roberts i'r cyfranwyr a soniodd am y 'trosolwg ardderchog o feysydd ymchwil posib a chasgliadau archifau sydd yn cael eu cadw'n lleol'. Dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r gweithdy'n arwain at waith diddorol a gwreiddiol a phwysleisiodd y dylid parhau â'r fenter yn y dyfodol fel ffordd o ddatblygu hyfforddiant ymchwil israddedig a chyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith.



BWRDD YMGYNGHOROL

Ar 20 Medi 2016 daeth Bwrdd Ymgynghorol SYC ynghyd ar gyfer ei ail gyfarfod. Dan gadeiryddiaeth yr Athro Robin Grove-White, mae'r Bwrdd yn gorff allanol sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned sy'n rhannu awydd i ddatblygu SYC yn endid deallusol cryf sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymdeithas a diwylliant Cymru.

Mae swyddogaeth aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol fel a ganlyn:

- Darparu cyngor a dealltwriaeth ynghylch sefydliadau allanol a allai fod yn bwysig i ddyfodol SYC;
- Bwrw golwg dros ddatblygiad SYC;

- Trafod a chynghori ar gynlluniau strategol SYC;
- Rhoi cyngor ar ddatblygu cynlluniau cyllido dyngarol;
- Gweithredu fel llysgenhadon dros SYC allan yn y byd mawr.

Roedd yn bleser gennym allu cynnal y cyfarfod yn Neuadd Bodorgan, Ynys Môn, diolch i garedigrwydd Mr George Meyrick sydd yn aelod. Roedd yr aelodau wrth eu bodd yn cael cwmni Mr David Wynne-Finch, Cadeirydd [CLA Cymru](#) a oedd wedi gwahodd SYC yn gynharach yn y flwyddyn i annerch eu fforwm 'Polisi Cymru'.



Gweithwyr yn Chwarel Lechi Penrhyn, Bethesda – BUASC X/KF 103 PEN



MYFYRWYR YN GWIRFODDOLI GYDA'R YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL

Ar 14 Medi 2016, [cynhaliodd SYYC weithdy](#) ym Mhrifysgol Bangor i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith sydd ar gael i fyfyrwyr yng [Nghastell Penrhyn](#) a [Phlas Newydd](#), y ddau adeilad hanesyddol hyn bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Daeth nifer dda o fyfyrwyr o sawl ysgol yn y brifysgol i'r gweithdy. Rhoddodd Sarah Worth, Swyddog Gwirfoddoli a Chymunedol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyflwyniad difyr ar swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, pwysigrwydd gwirfoddolwyr a'r amrywiaeth cyfoethog o swyddi a phrofiad gwaith sydd ar gael (sy'n rhychwantu pob rhan o weithgareddau'r sefydliad). Wedyn daeth Matthew Rowland, myfyrwr Hanes ac Archaeoleg trydedd flwyddyn, a soniodd am ei brofiadau cadarnhaol fel gwirfoddolwr yng Nghastell y

Penrhyn a Clare Brass o dîm Cyflogadwyedd y brifysgol a soniodd am fanteision lu gwirfoddoli. Ar ddiwedd y digwyddiad gwelwyd ciw hir o fyfyrwyr yn disgwyl cael cofnodi eu diddordeb.

Mae'r gweithdy yn rhan o bartneriaeth gynyddol agos rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phrifysgol Bangor, a rhoddodd gyfle i ennyn diddordeb myfyrwyr yng ngwaith SYYC. Ein bwriad yw cynnal y gweithdy'n flynyddol a chanfod ffyrdd o gydweithredu sy'n sicrhau buddion i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ym meysydd ymchwil, addysgu, profiad gwaith a datblygu gyrfa.

Diolch yn fawr iawn i Dr Lowri Ann Rees a Dr Karen Hearn am eu cefnogaeth ac am ganiatáu i'r gweithdy hwn gael ei ymgorffori yn eu Modiwl Profiad Gwaith.



EDRYCH YN ÔL AR FY NGHYFNOD FEL GWIRFODDOLWR YNG NGHASTELL PENRHYN.

(MATTHEW ROWLAND, MYFYRIWR 3EDD FLWYDDYN, YSGOL HANES AC ARCHAEOLEG)

Wrth wirfoddoli yng Nghastell y Penrhyn ers ychydig dros flwyddyn rwyf wedi cael amrywiaeth o brofiadau a sgiliau. Dysgais rai sgiliau newydd, a gwella eraill. Wrth i mi dynnu at ddiwedd fy nghyfnod yn astudio hanes gydag archaeoleg ym Mhrifysgol Bangor, mae'r erthygl hon yn crynhoi ychydig yn unig o'r rhesymau pam mae gwirfoddoli yn nhŷ mwyaf dadleuol a diddorol yr ardal wedi cyfrannu at lwybr fy ngyrfa; lle bynnag bydd yn arwain.

Mae unrhyw un yn gallu ailadrodd ffeithiau oddi ar damaid o bapur. Mae ailadrodd ffeithiau o'r cof yn fwy o her, ond mae'n rhywbeth y mae llawer yn gallu ei wneud. Mae cynhyrchu ffeithiau'n gywir ac ar yr un pryd daro cydbwysedd rhwng darparu rhy ychydig a gormod o wybodaeth, a chyflwyno'r ffeithiau dim ond i'r rhai hynny sydd am eu derbyn, yn sgil sy'n dod gyda phrofiad. Mae dysgu'r sgil hon fel Tywysydd Ystafell ym Mhenrhyn wedi codi fy hyder, a hefyd fy ngallu i ymwneud â phobl, - rhywbeth sy'n mynd i fod yn hollbwysig i mi wrth i mi symud ymlaen i'r dyfodol, un ai mewn cyfweiliadau swydd neu mewn swydd ei hun.

Mae bod y tu fewn i Gastell Penrhyn wedi ysgogi diddordeb yn hanes y safle, er nad yn y pethau sydd yn

cael eu harddangos yno (byddaf yn gorfod ailadrodd yr un pethau drosodd a throsodd pan fyddaf yn gwneud sesiwn fel Tywysydd Ystafell). Nid wyf yn dweud fy mod yn gwybod y cyfan; byddaf yn dysgu neu'n sylwi ar rywbeth newydd bob tro byddaf yn ymweld. Ond cawn fy hun yn cerdded i ba bynnag ystafell dra addurnedig y byddwn yn treulio'r diwrnod ynddi ac yn meddwl: "mae hyn yn wych, ac mae gan bobl ddiddordeb ynddo, ond beth am y morynion, y gweision, y rhannau dadleuol o'r hanes? Ydi'r ymwelwyr yn meddwl am hynny o gwbl neu ydi'r cyfoeth yn eu cyfareddu'n ormodol?" O ganlyniad dewisais ysgrifennu fy nhraethawd hir ar y ffordd y mae gweision yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd yn eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan ddefnyddio Castell y Penrhyn ac Erddig fel astudiaethau achos.

Erbyn hyn mae'n eithaf clir mai mewn amryw agweddau ar fyd treftadaeth y mae fy niddordeb. Mae'n ddiddordeb sydd wedi tyfu i raddau helaeth o fewn muriau uchel, digysur Castell Penrhyn, trwy siarad gyda gwesteion, cadwraethwyr a gwirfoddolwyr eraill. Fy nghanam nesaf fydd astudio ar gyfer MA mewn Rheoli Treftadaeth Ddiwylliannol ym Mhrifysgol Efrog, gyda'r bwriad o ddod o hyd i waith mewn amgueddfa wedyn, cyn edrych o bosib i gyfeiriad cyfleoedd yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn nes ymlaen. Wrth gwrs gall cynlluniau newid, ond yr hyn na fydd yn newid yn sicr fydd y sylfaen profiad a gefais trwy wirfoddoli yng Nghastell y Penrhyn.



DIGWYDDIADAU

TIRFEDDIANWRAIG A WRTHSAFODD DERFYSGWYR REBECCA YN SIR GAERFYRDDIN

Cynhaliwyd cynhadledd [Archif Blynyddol Menywod Cymru 2016](#) ym Mhrifysgol Bangor rhwng 8 a 9 Hydref. Gwahoddwyd Dr Lowri Ann Rees i gyflwyno papur ar Jane Walters o Lanmedeni, tîrfeddianwraig a safodd ei thîr yn erbyn Terfysgwyr Rebecca yn anterth y terfysgoedd yn 1843. Ymddangosodd agweddau ar y papur hwn yn nes ymlaen ar ffurf erthygl yng nghyfres Menywod Cymru yn ystod mis Hanes Cymru a gyhoeddwyd ddechrau 2017 yn y Western Mail. Mae fersiwn ar-lein o'r erthygl hon i'w gweld [yma](#).



GWEITHDAI A CHYSYLLTIADAU

Mae SYYC hefyd yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid yn y sectorau archif, treftadaeth ddiwylliannol a materion gwledig. Ym mis Tachwedd roedd yn falch o gael ei gynrychioli yng Nghyngor [Archifau](#) a Chofnodion Cymru Fforwm Blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth, plasty ystâd y teulu Davies o Ffosrhydgaled a ailadeiladwyd. Unwaith eto roedd y fforwm yn dangos pa mor arloesol yw'r sector archifau yng Nghymru ac yn rhoi cyfleoedd i drafod projectau'n canolbwyntio ar gasgliadau ystadau.

Ym mis Tachwedd bu Dr James Walmsley (Coedwigaeth) a Dr Eifiona Lane Thomas (Rheoli Amgylcheddol) mewn

gweithdy yn y brifysgol i gryfhau projectau ymchwil cydweithredol gyda [Chyfoeth Naturiol Cymru](#) (CNC). Yn ei gyflwyniad rhoddodd Dr Shaun Evans gyflwyniad ar amcanion ac uchelgais SYYC a thynnodd sylw at y cyfleoedd i ddatblygu rhaglen gyffrous o ymchwil ryngddisgyblaethol a all gael effaith fawr a chyfrannu at fywiogrwydd y Gymru wledig. Yn dilyn y gweithdy mae SYYC wedi bod mewn trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch [projectau a gysylltir â Rhestr](#)



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

FFORWM 'PUM GWLAD'

Hefyd ym mis Tachwedd bu Dr Lowri Ann Rees a Dr Shaun Evans yn falch o ymweld â Phrifysgol Queen's, Belfast, ar gyfer cyfarfod bord gron gyda phenaethiaid canolfannau ymchwil cyfatebol yn Iwerddon, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Swydd Efrog a Dyffryn Tafwys. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar ddull 'pum gwlad' newydd cyffrous o astudio tai ac ystadau hanesyddol sydd yn dechrau ymddangos. Bydd cydweithredu gyda'r canolfannau hyn yn parhau i fod yn rhan annatod o ddatblygiad SYYC.


Ym mis Ionawr bu Dr Lowri Ann Rees yn arholwr allanol i viva PhD yn yr Adran Hanes ym Mhrifysgol Maynooth. Testun ymchwil y traethawd oedd profiadau'r uchelwyr yn Sir Westmeath, 1879-1923. Trwy gyfrwng nifer o astudiaethau achos, craffodd y traethawd ar ystod eang o bynciau yr ymdeimlid â'u heffaith yn genedlaethol, o aflonyddwch yng nghefn gwlad a Rhyfel y Tir, ynghyd â swyddogaeth yr uchelwyr mewn gwleidyddiaeth, i effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, Rhyfel Annibyniaeth, a'r Rhyfel Cartref ddechrau'r ugeinfed ganrif.



SEMINARAU A SYMPOSIA

Mae cydweithwyr o Brifysgol Bangor wedi bod yn cymryd rhan yn [Narlithoedd Shankland](#), cyfres o sgysiau cyhoeddus wedi eu trefnu gan [Ganolfan Stephen Colclough ar Hanes a Diwylliant y Llyfr](#) i dynnu sylw at drysorau o Lyfrgell ac Archifau'r Brifysgol. Roedd cyfres 2016 yn cynnwys sgysiau gan Stephen Rees ar 'Fiddle Tunes from Anglesey' a chan Carol Tully ar '19th century European travellers to Wales'. Yn sesiwn mis Tachwedd, rhoddodd Dr Shaun Evans gyflwyniad o dan y teitl 'Useful for singeing fowls & lighting fires': the social life of Welsh estate collection - past, present and future', oedd yn edrych yn ôl ar y gwaith o greu a datblygu'r archifau ystadau ym Mangor a'r potensial ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Bu [Cyfres Seminarau SYC](#) ei hun 2016/17 yn llwyddiant ysgubol, a chafwyd cyflwyniadau bywiog gan Bettina Harden, Dr Liz Green a Dr Lloyd Bowen ar bynciau yn cynnwys Hanes yr Ardd, cyfraniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at hyrwyddo tirweddau ac adeiladau hanesyddol Cymru a materion statws ac anrhydedd yn Sir y Fflint yn y cyfnod Iagoaidd. I ddiweddu'r gyfres edrychwn ymlaen at gyflwyniad Siôn Edward Jones ar yr ymchwil ddoethurol a gyflwynodd yn ddiweddar ar [Ryfel y Degwm yng Nghymru, c.1886-89](#), ar y cyd â [phroject Cynefin](#).



Lyfr newydd Bettina Harden ar hanes garddio yng Nghymru ar gael i'w brynu oddi wrth Graffeg.

SGYRSIAU A CHYFLWYNIADAU

Mae SYC yn parhau i gryfhau ei pherthynas â chymdeithasau hanesyddol sirol Cymru. Ar 21 Tachwedd 2016 gwahoddwyd Dr Shaun Evans i roi cyflwyniad i [Gymdeithas Hynafiaethwyr Ynys Môn](#) ar destun 'Mostyn: the creation of a North Wales dynasty c.1500-1700 - Anglesey connections and the Caerwys Eisteddfodau'. Cyflwynwyd y sgwrs gan yr Athro A.D.Carr a wnaeth ymchwil arloesol i deulu ac ystad Mostyn yn ystod y 1970au.

Rhoddodd dau aelod o dîm SYC anerchiad i aelodau [Cymdeithas Hanesyddol Fflint](#) yn eu cyfarfodydd ym mis Ionawr a Chwefror 2017. Ym mis Ionawr, rhoddodd Shaun Evans bapur ar ei ymchwil ddiweddar i hanes [ystadau Pentrehobyn](#) a [Neuadd Trefor](#). Ym mis Chwefror cafwyd anerchiad treiddgar gan Nia Powell yn ail-ddehongli'r 'Deddfau Uno'.



Trevor Lloyd (1745-1804) o Blas Trefor, Llangollen, gan William Parry (1743-91) - © Pentrehobyn Estate

Mae SYC yn edrych ymlaen at gymryd rhan yng nghyfarfod gwanwyn [Fforwm Hanes Lleol Ceredigion](#) ar y testun '[Mansions and their Estates in Ceredigion](#)' ar 22 Ebrill. Bydd Gwilym Owen a Shaun Evans yn cynnal sesiwn gyda Julie Mathias (Prifysgol Aberystwyth) ar archifau'r ystadau yng Nghymru fel rhan o'r trafodion.

Bydd Dr Shaun Evans yn annerch Cyfeillion Archifau Clwyd yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn [Archifdy Sir Ddinbych](#), Rhuthun, ar 25 Ebrill ar bwnc '[Rent capons, silver plate and church pews: promoting status, honour and authority in North East Wales, c. 1500-1700](#)'. Mae Dr Evans yn falch iawn o fod wedi derbyn gwahoddiad i fod yn noddwr i'r gymdeithas, sydd â'r nod o gefnogi gwaith yr archifdai yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

DIGWYDDIADAU

NANNAU: A RICH TAPESTRY OF WELSH HISTORY

16 TACHWEDD 2016

NEUADD CORSYGEDOL, DYFFRYN ARDUDWY, MEIRIONNYDD


Ym mis Tachwedd roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch iawn o chwarae rhan yn lansiad llyfr pwysig newydd oedd yn canolbwyntio ar hanes teulu ac ystad Nannau.

Gwnaeth yr awdur, Philip Nanney Williams, ddefnydd helaeth o Gasgliad Ystad Nannau a gedwir yn [Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor](#) wrth ymchwilio ar gyfer y cyhoeddiad ac rydym yn hynod falch ei fod wedi cytuno i ychwanegu at y casgliad archifau hwn drwy roi i'w gadw yno'r corff sylweddol o ddeunydd ychwanegol yn ymwneud â Nannau a gasglwyd ynghyd ganddo dros y degawd diwethaf.

Denwyd tyrfa fawr i Gorsygedol i'r cyfarfod lle lansiwyd y gyfrol yn swyddogol gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC, Canghellor Prifysgol Bangor ac aelod o Fwrdd Ymgynghorol SYYC. Yn dilyn hynny cafwyd sgwrs fer gan yr awdur yn crynhoi'r cysylltiadau rhwng Corsygedol a Nannau a dau anerchiad byr gan Gyfarwyddwyr SYYC a'r [Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig](#) ar swyddogaeth ystadau yn hanes, diwylliant a thirweddau Cymru.

Yn ogystal â rhoi cyfle i weld un o dai hanesyddol amlycaf Cymru, i gyd-fynd â'r lansiad hefyd cafwyd arddangosfa arbennig o ddeunyddiau o gasgliadau preifat sydd wedi cael eu casglu ynghyd i ddangos hanes cyfoethog Nannau. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys lluniau o'r teulu oedd yn dyddio'n ôl i'r 17eg ganrif, trysorau teuluol a luniwyd o Geubren yr Ellyll, pen 'dafad ddu o Lwyn' wedi ei fowntio, lluniau o Ych Gwyn Nannau a memorabilia o ddatliadau dyfod i oed y teulu.


I archebu copi o'r llyfr ewch i <http://nannauhistory.com>.



Philip Nanney Williams gyda ei lyfr newydd



Roedd tyrfa fawr o bobl yn Plas Corsygedol



Peter Ogwen (YDCW) a Shaun Evans (SYYC) gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a Philip Nanney Williams



CORSYGEDOL - HANES BYR

SHAUN EVANS

Bonedd dilygredig; Immaculata gens - dyna a geir yn fersiynau Cymraeg a Lladin un o'r arwyddeiriau a ddefnyddiwyd gan Fychaniaid Corsygedol yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Honnai'r teulu eu bod yn ddisgynyddion i Osbwrn Wyddel, a ymsefydlodd yn Ardudwy yn y drydedd ganrif ar ddeg yn ôl traddodiad, gan briodi â merch Corsygedol a sefydlu llinach a ddaeth yn amlwg iawn yng ngogledd orllewin Meirionnydd. Gyda'r blynyddoedd mabwysiadodd y teulu'r cyfenw Fychan neu Vaughan gan ddod yn brif rym yn y gymdogaeth. Mae'r arfbais a briodolir i Osbwrn Wyddel i'w gweld yn y darian gerfiedig uwchben y lle tân ym mhrif neuadd Corsygedol, gyda'r dyddiad 1576 arni.

Yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau roedd y teulu'n gefnogwyr cadarn i achos y Lancastriaid. Daeth Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Einion (m. 1483) o Gorsygedol i amlygrwydd fel amddiffynnydd diildio Castell Harlech rhwng 1461-68. Yn ddiweddarach daeth yn un o bennaf cefnogwyr Harri Tudur a dywedir iddo warchod Siaspar Tudur am gyfnod ac adeiladu 'Y Tŷ Gwyn yn Abermo', fel canolfan strategol i gynorthwyo goresgyniad ei gydwladwr.

Rhoddodd buddugoliaeth Harri'r VII yn Bosworth a'r Tuduriaid yn dod i rym ym Mhrydain gyfleoedd pellach i'r Fychaniaid gryfhau eu statws a'u dylanwad yn eu cymdogaeth. Roedd y teulu'n gynheiliaid llywodraeth leol, gyda phob cenhedlaeth ohonynt yn

cyflawni amrywiaeth o swyddi a'u galluogai i weithredu eu hawdurdod. Roedd arddangos arfbais Elizabeth I yng Nghorsygedol yn dynodi bod y teulu yn un o gynrychiolwyr swyddogol y wladwriaeth Duduraidd yn yr ardal. Y tu hwnt i'w cyfrifoldebau llywodraethol ym Meirionnydd, yn 1545 daeth Rhys Vaughan y cyntaf o'r teulu i gynrychioli'r sir yn y Senedd. Daeth disgynydd iddo, Richard Vaughan (m.1636) i amlygrwydd am reswm nad oedd yn ddyrchafol iawn mewn gwirionedd. Roedd mor fawr a thrwsogl fel y bu'n rhaid lleddu drysau Tŷ'r Cyffredin i alluogi'r 'marchog tew Cymreig' i ddod i mewn! Yn ystod y ddeunawfed ganrif roedd swydd Aelod Seneddol dros Feirionnydd yn rhan o gynhysgaeth y teulu i bob pwrpas gan mor gadarn oedd eu gafael ar y sedd.

Perchenogaeth tir oedd wrth wraidd teuluoedd bonheddig fel hyn. Yn raddol ymledodd dylanwad a maint ystâd Corsygedol o'i thiroedd craidd ym mhlwyfi Llanddwywe a Llanenddwyn ac o Harlech a'r Bermo i ardaloedd cyfagos. Yn 1525 er enghraifft, cafodd William Vaughan afael ar 100 o randiroedd i'w hychwanegu at ystâd a oedd eisoes yn 7,000 o aceri. Mae'r gweithredoedd yn archifau'r ystâd yn dangos fel y parhaodd daliadaeth dir y teulu i gynyddu ac ymledu dros y canrifoedd dilynol. Chwaraeodd priodas ran bwysig hefyd o ran ehangu dylanwad tiriogaethol y teulu, yn y rhanbarth yn ogystal ag mewn rhannau eraill o Gymru. Dethlir llawer o gynghreiriau priodasol y teulu yn yr amrywiol arfbeisiau a welir yng Nghorsygedol.

Etifeddodd y Fychaniaid ystâd Plas Hen (Talhenbont) yn Sir Gaernarfon drwy briodi'r aeres; hefyd cawsant afael ar Bodidris yn Sir Ddinbych a meithrin cysylltiadau cryfion â theulu dylanwadol Nannau dros sawl cenhedlaeth.

Mae'r rhannau hynaf sy'n sefyll o blasty presennol Corsygedol yn mynd yn ôl i'r flwyddyn 1576, er y gwnaed addasiadau sylweddol gan Gruffudd Vaughan oddeutu 1592-93, gydag addasiadau pellach yn cael eu gwneud yn rheolaidd gan genedlaethau dilynol. Ychwanegodd William Vaughan (m.1633) giatws carreg tri llawr cadarn yn 1630, a oedd yn symbol pensaernïol pwysig o statws a chyfoeth y teulu ar y pryd. Amlygwyd dylanwad lleol y teulu hefyd yn Eglwys Sant Dwywe gerllaw.

O'r oesoedd canol hyd at y ddeunawfed ganrif roedd y teulu'n gefnogwyr brwd gweithgaredd diwylliannol Cymreig. Canwyd lluo o gerddi mawl Cymraeg i aelodau o'r teulu, yn cynnwys gan deulu o feirdd lleol a adwaenid fel 'Phylipiaid Ardudwy'. Roedd y Fychaniaid hefyd yn gasglwyr llawysgrifau a llyfrau Cymraeg ac erbyn hyn mae nifer fawr o destunau Corsygedol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bu bri neilltuol ar ymwneud Corsygedol â'r dreftadaeth ddiwylliannol Gymreig yn ystod oes William Vaughan (1707-75). Fe'i penodwyd yn Llywydd cyntaf Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1751 a chyfansoddodd ei gyfaill Lewis Morris (1701-65) gerddi'n clodfori Corsygedol a Nannau fel cynheiliaid yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth.

Daeth prif linach Fychaniaid



Corsygedol i ben ar farwolaeth Evan Lloyd Vaughan yn 1791. Yn dilyn hynny aeth yr ystâd i ddwylo teulu Mostyn. Gwerthodd teulu Mostyn ystâd Corsygedol oddeutu 1858, gyda rhannau sylweddol ohoni'n cael ei phrynu gan deulu Ansell a'i gwerthodd hi wedyn yn 1908. Ar hyn o bryd mae Corsygedol yn gartref i Mr Edmund S. Bailey ac mae'n lle deniadol i gynnal priodasau a digwyddiadau preifat (gweler www.corsygedolhall.co.uk).

Ymchwil bellach:

Mae'r rhan fwyaf o'r deunydd archif yn ymwneud ag ystâd Corsygedol i'w

gael o fewn y Casgliad Mostyn yn Archifau Prifysgol Bangor a manau eraill. Mae fersiwn wedi'i golygu o hanes teuluol William Vaughan, a luniwyd yn 1770, wedi'i hargraffu yn *Archaeologia Cambrensis* 6 (1875), tt. 1-16. Am ymchwil fwy diweddar ar y teulu a'r ystâd, gweler erthyglau a gyhoeddwyd yn *Trafodion Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd* ac yn *History of Merioneth: Volume II – The Middle Ages*, J. Beverley Smith and Llinos Beverley Smith (gol.), (Caerdydd, 2001).



DIGWYDDIADAU I DDOD

CARTO CYMRU 2017: 'MESUR Y MEYSYDD'

DYDD GWENER, 12 MAI 2017

Mae'n bleser gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru weithio mewn partneriaeth â [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#) a [Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#) i gynnal Symposiwm Mapiau Cymru 2017.

Cynhelir y symposiwm eleni yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a bydd yn cynnull ynghyd garfan o arbenigwyr rhyngwladol i werthuso datblygiad y gwaith o fapio ystadau a'i werth wrth bortreadu tirweddau hanesyddol Cymru a thu hwnt.

Mae tocynnau ar gyfer y digwyddiad yn costio £20 (sy'n cynnwys cinio bwffe).

Er mwyn archebu lle, ffoniwch Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar 01970 632548;

Neu archebwch ar-lein drwy fynd i:

<https://www.ticketsource.co.uk/event/EILMJF>

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2017 YNYS MÔN



Peter Lord

'PORTREADU POBL MÔN'

'PORTRAYING THE PEOPLE OF ANGLESEY'

Dydd Gwener, 11 Awst 2017, 1.30yp, Pabell Prifysgol Bangor

Friday, 11 August 2017, 1.30pm, Bangor University Tent

Maes yr Eisteddfod, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SS

CROESO I BAWB

ALL WELCOME





SYMPOSIWM CYHOEDDUS SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU 2017: 'JUSTICE AND JOY'

DYDD SADWRN, 9 MEDI

Mae SYYC yn cydweithredu â [Chymdeithas Brycheiniog](#) i gynnal symposiwm undydd o'r enw *'Justice and Joy': Breconshire estates from the perspectives of landlord and tenant.*

Mae'r digwyddiad hwn yn adeiladu ar ddigwyddiadau rhanbarthol tebyg sydd wedi ymchwilio i ddylanwad hanesyddol ystadau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, Sir Gaerfyrddin a Sir Feirionnydd.

Cynhelir y digwyddiad ym [Mhenpont](#), Sir Frycheiniog. Bydd manylion y digwyddiad a gwybodaeth archebu ar gael cyn hir trwy wefan [SYYC](#) a thrwy'r rhestr archebu.

CYFRES SEMINARAU SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU 2017/18

Bydd cyfres seminarau ymchwil SYYC yn ailddechrau yn yr hydref - bydd rhestr lawn o ddyddiadau a siaradwyr ar wefan [SYYC](#).

SYMPOSIWM CYHOEDDUS SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU 2018: 'SPHERES OF INFLUENCE'

Ym mis Chwefror mae SYYC wedi trefnu

ysgol undydd ar y cyd â [Chymdeithas Hynafiaethwyr Môn](#) ac [Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd](#) i graffu ar effaith ystadau ar hanes, diwylliant a thirweddau Môn, o'r cyfnod canoloesol i'r ugeinfed ganrif.

Caiff rhagor o fanylion am y digwyddiad eu gosod ar wefan [SYYC](#).

I gael rhaghysbysiad o ddigwyddiadau trwy e-bost, rhowch eich enw ar restr bostio SYYC trwy anfon cais at Dr Shaun Evans yn iswe@bangor.ac.uk

CEFNOGI EIN CENHADAETH

Mae SYYC yn dod i'r amlwg fel presenoldeb deallusol ffres ym mywyd Cymru: Canolbwynt cydweithredu cenedlaethol newydd i gydlynu ymchwil i hanes Cymru drwy lygaid ei hystadau fel petae.

Mae eich cefnogaeth ddyngarol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r hyn y gallwn ei gyflawni.

Os ydych yn rhannu ein hamcanion a'n dyheadau ac yr hoffech gyfrannu at ein cenhadaeth, gallech gynorthwyo i chwarae rhan bwysig yn y canlynol:

- meithrin y genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr blaengar er mwyn sicrhau fod astudio hanes Cymru'n parhau'n ddisgyblaeth academaidd ffyniannus;
- datgloi'r straeon rhyfeddol sydd wedi'u cuddio mewn casgliadau ystadau mewn archifau a phlastai ledled Cymru;
- hyrwyddo hanes a threftadaeth Cymru i gynulleidfaedd newydd ac ehangach, trwy ddigwyddiadau cyhoeddus, gweithgareddau estyn allan a chyhoeddiadau;
- diogelu, cofnodi, digideiddio ac arddangos rhannau pwysig o dreftadaeth ddogfennol y genedl, a gedwir yn ein Harchifau a Chasgliadau Arbennig.

Mae cefnogaeth cyfranwyr yn allweddol i'n galluogi i gyflymu ein cynnydd. Gyda'ch cefnogaeth chi gallwn

ddatblygu rhaglen ymchwil sydd â photensial enfawr i fywiogi a herio ein dealltwriaeth o orffennol Cymru, a'i wneud yn berthnasol i amrywiaeth o gynulleidfaedd newydd ac ehangach.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd mae'ch rhodd yn gwneud gwahaniaeth, anfonwch e-bost at iswe@bangor.ac.uk i gofrestru i dderbyn ein cylchlythyr. Mae croeso cynnes hefyd i chi ddod i un o'n digwyddiadau cyhoeddus niferus ledled Cymru.

SUT I ROI

Gellwch roi un rhodd, neu roddion rheolaidd, i gefnogi gwaith Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. I gyfrannu trwy sic, cerdyn credyd neu ddebyd uniongyrchol, cysylltwch â'r Swyddfa Ddatblygu os gwelwch yn dda:

E-bost: development@bangor.ac.uk

Ffôn: +44 (0) 1248 382004

Post:

Cronfa Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru

Y Swyddfa Ddatblygu

Prifysgol Bangor

Bangor

Gwynedd LL57 2DG

Llawer o ddiolch am eich cymorth.



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Carto-Cymru



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



12.05.17
9:45am - 4:30pm

Carto Cymru: Mesur y Meysydd

Diwrnod cyfan i drafod datblygiad mapio ystadau a'i werth i ddarlunio'r tirwedd hanesyddol.

Carto Cymru: Measuring the Meadows

A day symposium to evaluate the development of estate mapping and its value in portraying the historical landscape.

Mynediad drwy docyn £20.00 - Bwffe yn gynnwysedig
Admission by ticket £20.00 - Buffet lunch included



TOCYNNAU/TICKETS
01970 632 548
digwyddiadau.lyfrgell.cymru
events.library.wales

THE WALES MAP SYMPOSIUM 2017
SYMPOSIUM MAPIAU CYMRU 2017

GWYBODAETH GYSYLLTU

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ddatblygiad Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, buasem yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau:

Dr Shaun Evans

Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Ffôn: +44 (0) 1248 383617

Ebost: iswe@bangor.ac.uk